

# Bwletin Defnyddwyr

## Diwygiadau i symleiddio'r farchnad ynni

Ym mis Mawrth 2011, fel rhan o'n Hadolygiad o'r Farchnad Fanwerthu, nodwyd gennym fod cystadleuaeth ym mhob rhan o'r farchnad yn cael ei llesteirio drwy gyfuniad o dariffau cymhleth, ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr a diffyg tryloywder. Fis Tachwedd eleni, gwnaethom gyhoeddi cynigion manwl am farchnad ynni symlach a mwy cystadleuol i ddeiliaid cartrefi (domestig) a busnesau (annomestig).

### Cynigion domestig<sup>1</sup>

Prif nodweddion ein cynigion i fynd i'r afael â natur gymhleth tariffau a hyrwyddo gwell ymgysylltu yw y byddai cyflenwyr yn cynnig un tariff safonol yn unig fesul dull talu.

Byddai cyflenwyr yn cystadlu ar sail cyfradd uned sengl ar gyfer pob tariff safonol a byddai Ofgem yn pennu tâl safonol am bob tariff safonol. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i gymharu tariffau safonol drwy edrych ar y gyfradd uned yn unig. Byddai pob tariff nad oedd yn safonol yn un tymor sefydlog heb contract treigl awtomatig. Byddent yn cynnwys cyfnodau lle y gellid newid heb i unrhyw ffi gael ei chodi am adael, a fydd yn cynnwys gwarant am gyfnod penodol i alluogi cwsmeriaid i gael yr hen bris nes eu bod yn newid; a byddai prisiau, telerau ac amodau tariffau nad oeddent yn safonol wedi'u gwarantu am hyd y contract.

Gwnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol i ddwyn ynghyd ymatebion manwl i'n cynigion i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu prisiau a dewis bargaen well. Fe'i cynhaliwyd mewn wyth lleoliad ledled Prydain Fawr, gyda'r grwpiau sampl yn cael

eu rhannu'n 68 o ddefnyddwyr prif ffrwd a 38 o ddefnyddwyr agored i niwed. Roedd elfen feintiol yr ymchwil yn cynnwys arolwg o 2000 o ddefnyddwyr ar-lein a chafodd 202 arall eu cyfnewid wyneb yn wyneb er mwyn sicrhau bod agweddau defnyddwyr mwy agored i niwed ac 'all-lein' yn cael eu dwyn ynghyd. Diben yr ymchwil hon oedd asesu'n feintiol a deall faint o ddefnyddwyr a allai wneud y penderfyniad cywir o ran tariff iddynt hwy, ynghyd â pha mor hawdd ydoedd i wneud hynny. Mae'r ddau ddarn o ymchwil wedi cael eu llywio gan ymchwil gydgyngorol gynharach a wnaed gan ein Panel Llais Defnyddwyr.

Ynghyd â thariffau symlach, rydym yn cynnig biliau cliriach, gwybodaeth safonol a Safonau Ymddygiad y gellir eu gorfodi (a fydd yn pennu disgwyliadau clir o ran ymddygiad cyflenwyr). Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'n cynigion yw 23 Chwefror 2012.

### Cynigion annomestig<sup>2</sup>

Rydym wedi edrych yn fanwl ar weithgareddau cyflenwyr ac rydym yn cynnig diwygiadau mewn pedwar maes allweddol:

- Ehangu mesurau diogelu o ran

hysbysiadau contract a chontractau treigl i gynnwys busnesau bach (y rheini â llai na 50 o gyflogion; dim mwy na €10m o droiant ac yn seiliedig ar y math o fesurydd a lefelau defnydd).

- Ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn cyflenwyr nad ydynt yn ymddwyn yn deg tuag at fusnesau sy'n ceisio newid cyflenwr.
- Canolbwyntio'n fwy ar gamau gweithredu cyfryngwyr trydydd parti gan gynnwys unrhyw achrediad gan Ofgem o ran eu Codau Ymddygiad.
- Safonau Ymddygiad<sup>3</sup> y mae'n rhaid i gyflenwyr lynu wrthynt, er mwyn rhoi mwy o hyder i ddefnyddwyr y cânt eu trin yn deg.

Rydym am i gwsmeriaid busnes gael gwell gwybodaeth ar bob un o'r tri cham yng nghylch oes eu contract ynni: pan fyddant yn chwilio am y fargen orau, yn cytuno ar contract ac yn newid cyflenwr. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud mwy i helpu cwsmeriaid busnes i ddeall eu hawliau a sut mae'r farchnad ynni'n gweithio. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'n cynigion yw 15 Chwefror 2012.



<sup>1</sup> Dogfen Retail Market Review – Domestic Proposals: <http://www.ofgem.gov.uk/pages/moreinformation.aspx?docid=72&refer=markets/retmkt/rmr>

<sup>2</sup> Dogfen Retail Market Review – Non-Domestic Proposals: [http://www.ofgem.gov.uk/Markets/RetMkts/rmr/Documents1/RMR\\_non-domestic%20proposals\\_consultation.pdf](http://www.ofgem.gov.uk/Markets/RetMkts/rmr/Documents1/RMR_non-domestic%20proposals_consultation.pdf)

<sup>3</sup> Yn gymwys i ddefnyddwyr domestig ac annomestig

## Adroddiad gwariant cymdeithasol

Fis diwethaf gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad<sup>4</sup> ar yr amryw fesurau a weithredwyd gan gyflenwyr ynni rhwng mis Ebrill 2010 a mis Mawrth 2011 i helpu eu cwsmeriaid agored i niwed a'u cwsmeriaid sy'n wynebu tldi tanwydd fel rhan o'u hymrwymiad gwirfoddol.

Canfyddiadau allweddol yr adroddiad yw:

- Gwariant cyfunol y cyflenwyr ar gyfer 2010-11 oedd £178.7 miliwn (£3.70 fesul cyfrif cwsmer) - mae hyn yn rhagori ar darged y Llywodraeth bron £29 miliwn.
- Cyfrannwyd £91.8 miliwn, sef 51% o gyfanswm y gwariant, drwy dariffau cymdeithasol a gostyngol.
- Cyfrannwyd £56.4 miliwn, sef 32% o gyfanswm y gwariant, drwy ad-daliadau.
- Hefyd cyfrannodd cyflenwyr £18.2 miliwn i gronfeydd ymddiriedolaeth a £6.4 miliwn i bartneriaethau.
- Cyflawnodd pob cyflenwr ei dargedau gwariant ar gyfer trydedd flwyddyn yr ymrwymiad.

Dros dair blynedd yr ymrwymiad gwirfoddol, mae cyflenwyr wedi cyfrannu cyfanswm o £488.7m drwy raglenni cymdeithasol - gan ragori ar darged y Llywodraeth tua £115m. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyflenwyr wedi cyfrannu cyfanswm o £335m drwy dariffau cymdeithasol a gostyngol, dros £81m drwy ad-daliadau a thros £202m drwy Gronfeydd Ymddiriedolaeth.

Mae'r ymrwymiad gwirfoddol wedi dod i ben bellach. Erbyn hyn caiff rhaglenni cymdeithasol eu rhedeg fel rhan o gynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes gorfodol y Llywodraeth, lle y bydd cyflenwyr yn darparu tua £1.13 biliwn o drefniadau cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i gwsmeriaid sy'n wynebu tldi tanwydd dros bedair blynedd o fis Ebrill 2011 i 2015.

## Rheoli cwsmeriaid sydd mewn dyled

Mae Ofgem wedi ysgrifennu at gyflenwyr ynni i bwysleisio'r neges bod pob cyswllt yn bwysig wrth ymdrin â dyledion cwsmeriaid. Mae hyn yn dilyn cau ein hymchwiliad i Nwy Prydain, a ystyriodd p'un a oedd wedi torri un o amodau safonol y drwydded o ran cymryd pob cam rhesymol i ganfod gallu cwsmer i dalu wrth gyfrifo rhandaliadau.

Caewyd yr ymchwiliad ar ôl i Nwy Prydain ddatrys yr achosion y tynnwyd ein sylw atynt gan Llais Defnyddwyr yn foddhaol a gwneud gwelliannau pwysig i'w weithdrefnau a'i bolisiau o ran rheoli cydberthnasau â chwsmeriaid sy'n cael anawsterau i dalu ers dechrau'r ymchwiliad, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd y pryderon a ysgogodd yr ymchwiliad hwn yn codi eto. Yn ogystal, dim ond dau gwsmer a ddatgysylltwyd gan Nwy Prydain oherwydd dyled yn 2010 a dengys ei gyflwyniad diweddaraf nad yw wedi datgysylltu unrhyw gwsmeriaid oherwydd dyled yn 2011 (hyd at fis Medi).

Yn ein hadroddiad, a luniwyd ar y cyd â Llais Defnyddwyr ac a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010<sup>5</sup> nodwyd yn glir y safonau uchel y disgwyliwn i gyflenwyr ynni eu cyrraedd, yn enwedig drwy egwyddorion allweddol y gallu i dalu a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd o ran ymgorffori'r egwyddorion hyn.



## Uchafbwyntiau Ynni – Y Fargen Orau - Ymgyrch defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ac Ofgem



- Ers 2008 cynhaliwyd 1,000 o sesiynau cynghori ar gyfer dros 12,000 o staff rheng flaen a defnyddwyr.
- Drwy rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt mae cyfanswm o 94,000 o bobl wedi cael budd o'r ymgyrch.
- Ers mynd yn fyw ym mis Ebrill 2011 edrychwyd ar ein fideos cynghori ar-lein dros 10,000 o weithiau. Mae'r fideo mwyaf poblogaidd sef 'struggling to pay' yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar sefydliadau neu gynlluniau a allai eu helpu gyda'u biliau neu i gael yr incwm mwyaf posibl.

## Ystadegau gwerthuso o ymgyrch y gaeaf diwethaf

- Roedd 29% o ddefnyddwyr wedi cymryd camau i sicrhau gwell borgen, yn cynnwys cysylltu â'u cyflenwr presennol i gael gwell tariff ac edrych ar wefannau sy'n darparu gwybodaeth am newid cyflenwr.
- Roedd 65% o weithwyr rheng flaen wedi rhoi cyngor i'w cleientiaid ar y pynciau a drafodwyd yn y sesiwn. Roedd bron tri chwarter o'r rhain wedi rhoi cyngor ar bwnc nad oeddent wedi rhoi cyngor arno yn flaenorol.

## Ymgyrch y gaeaf hwn

- Mae'r chwe chwmni ynni mawr wedi rhoi £600k i'r ymgyrch – y swm uchaf erioed ar gyfer yr ymgyrch Ynni – Y Fargen Orau. Bydd yr arian hwn yn cefnogi dros 1,200 o sesiynau cynghori ledled y DU a ddylai olygu y caiff 95,000 o ddefnyddwyr ychwanegol fudd o'r ymgyrch - dros ddwywaith y cyfanswm presennol.

Am ragor o wybodaeth am Ynni – Y Fargen Orau ewch i'n gwefan<sup>7</sup>

<sup>4</sup> Gellir gweld yr adroddiad llawn yma

<http://www.ofgem.gov.uk/SUSTAINABILITY/SOCIACTION/SUPPLIERS/CSR/Documents/Suppliers%20Social%20Spend%20report%202010-2011.pdf>

<sup>5</sup> Gellir gweld y ddogfen hon yma: <http://www.ofgem.gov.uk/Sustainability/SocAction/Publications/Documents/1/Debt%20Review%20Report.pdf>

<sup>6</sup> Adroddiad gwerthuso annibynnol: <http://www.ofgem.gov.uk/Pages/MoreInformation.aspx?docid=244&refer=Consumers/smebd>

<sup>7</sup> <http://www.ofgem.gov.uk/Consumers/smebd/Pages/smebd.aspx>

# Grŵp Her Defnyddwyr - diweddariad

Mae ein Grŵp Her Defnyddwyr wedi parhau i fod yn weithgar dros y misoedd diwethaf, gan roi cyngor arbenigol i ddefnyddwyr a chyfrannu at y broses o reoli prisiau'r cwmni trawsyrru (RIIO T1<sup>8</sup>).

Mae'r Grŵp Her Defnyddwyr yn ymdrin â'r rheolaethau presennol o ran prisiau trawsyrru a dosbarthu nwy. Mae'n cynnwys wyth arbenigwr defnyddwyr ac amgylcheddol a benodwyd gennym sy'n gweithredu fel cynghorwyr drwy gyflwyno safbwyntiau defnyddwyr ar rai o'r materion mwy cymhleth nad ydym yn gallu mynd i'r afael â hwy drwy ymchwilio i'r farchnad.

Yn dilyn cyhoeddi cynlluniau busnes y cwmnïau trawsyrru ym mis Gorffennaf, rhoddodd y Grŵp Her ei farn ar nifer o agweddau allweddol y mae'n ofynnol i'r

cwmnïau eu cynnwys yn eu cynlluniau. Defnyddiwyd y mewnbwn hwn i helpu Ofgem i asesu p'un a ddylid parhau i'w cynnwys ar y 'llwybr carlam' drwy'r broses. Yn arbennig, edrychwyd ar y canlynol:

- P'un a oedd y cynlluniau yn rhoi darlun clir o'r hyn yr oedd disgwyl i'r cwmni ei wneud dros y cyfnod wyth mlynedd o reoli prisiau o 2013;
- Yr hyn y mae'r cwmnïau wedi'i wneud i ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio eu cynlluniau;

- Sut y bydd y cwmnïau yn mesur boddhad cwsmeriaid;
- Sut mae'r cwmnïau yn disgwyl arloesi a chyfrannu at gyflawni targedau amgylcheddol.

Cyfarfu'r Grŵp gyda'r cwmnïau trawsyrru hefyd i drafod eu cynlluniau. Bydd y Grŵp yn parhau i roi mewnbwn i'r rheolaethau ar brisiau dosbarthu a thrawsyrru nwy, ynghyd â materion eraill sy'n effeithio ar ddefnyddwyr mewn rhwydweithiau ynni dros y flwyddyn nesaf.

## Adroddiad blynyddol Datblygu Cynaliadwy

Ym mis Tachwedd gwnaethom gyhoeddi 'Sustainable Development Focus', sef adroddiad ar gyfraniad Ofgem i'r nod o gyflawni datblygu cynaliadwy yn 2010-11. Isod nodir rhywfaint o'r gwaith a wnaed gennym o dan ein pum thema.

### 1. Rheoli'r newid i economi carbon isel

- Rydym wedi penderfynu y dylid ariannu'r Cysylltiad HVDC Gorllewinol, a fyddai'n darparu tua 2GW o gapasiti ychwanegol rhwng yr Alban a Lloegr, gan hwyluso llif ynni o orsafoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd.
- Gwnaethom ddewis pedwar prosiect i'w hariannu drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Carbon Isel, sydd werth cyfanswm o £63m.
- Gwnaethom arwain cam cynllunio polisi y Rhaglen Mesuryddion Deallus ar ran yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC).

### 2. Dileu tloidi tanwydd a diogelu cwsmeriaid sy'n agored i niwed

- Dangosodd ein hadroddiad ar rwymedigaethau cymdeithasol yn 2010 fod nifer yr achosion o ddatgysylltu cwsmeriaid wedi lleihau i'r lefel isaf erioed.
- Ein nod o ran rheoli prisiau dosbarthu nwy yw ymestyn y rhwydwaith nwy i gymunedau sy'n wynebu tloidi tanwydd.
- Parhau i gefnogi Ynni - Y Fargen Orau a rhaglen 'Energy Best Deal' yn yr Alban sy'n cynnig hyfforddiant i weithwyr cynghori a sesiynau cynghori wyneb yn wyneb i ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini ar incwm isel, ar sut i leihau eu costau ynni a chael help os ydynt yn cael anhawster i dalu eu biliau ynni.

### 3. Hyrwyddo mesurau arbed ynni

- Dangosodd ein Prosiect Ymchwil ar y Galw am Ynni fod defnyddwyr yn gallu lleihau eu defnydd o ynni os ydynt yn gwybod beth i'w wneud a bod gwybodaeth o ansawdd sydd wedi'i theilwra ar gael iddynt yn amserol.
- Gwnaethom gydweithio â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd i ddatblygu manylion y Fargen Werdd, sef prif raglen effeithlonrwydd ynni Llywodraeth y DU.
- Anogwyd rhwydweithiau, drwy gymhellion, i leihau faint o ynni a gaiff ei golli.

### 4. Sicrhau cyflenwad nwy a thrydan diogel a dibynadwy

- Mae Adolygiad Cod Sylweddol Diogelwch Cyflenwadau Nwy yn asesu p'un a oes angen gwneud diwygiadau er mwyn gwella diogelwch cyflenwadau.
- Datblygwyd prosiectau a fydd yn ein helpu i ddefnyddio ynni a gynhyrchir mewn gwledydd eraill yn Ewrop.

### 5. Cefnogi gwelliannau amgylcheddol

- Bydd y rheolaeth nesaf o ran prisiau trawsyrru yn cynnwys mesurau penodol a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag amwynder gweledol, ac rydym yn parhau i ystyried materion amgylcheddol lleol wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym yn parhau i gasglu data ar ollyngiadau olew o rwydweithiau trydan.

Rydym hefyd wedi bod yn gwella ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran materion datblygu cynaliadwy, ac rydym wedi gwella trefniadau rheoli amgylcheddol ein sefydliad ein hunain. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma:

<http://www.ofgem.gov.uk/sustainability/sdr/Pages/SDR.aspx>



<sup>8</sup> RIIO (Refeniw = Cymhellion + Arloesedd + Allbynnau) yw fframwaith Ofgem ar gyfer rheoli prisiau rhwydweithiau.

<sup>9</sup> National Grid Electricity Transmission, National Grid Gas Transmission, Scottish Power Electricity Transmission Ltd, Scottish Hydro Electricity Transmission

# Hyrwyddo arfer gorau ymhlith dosbarthwyr trydan a nwy

Rhoddodd Ofgem gynlluniau gwobrwyo dewisol ar waith ar gyfer dosbarthwyr trydan a nwy er mwyn annog a llywio perfformiad mewn meysydd gwasanaeth. Rydym yn ceisio cyflawni hyn drwy gydnabod perfformiad blaengar o fewn y diwydiant a llywio arloesedd a chreadigrwydd drwy hyrwyddo arfer gorau. Disgwylir i gynlluniau llwyddiannus gael eu haildrodd ym mhob rhan o'r diwydiant er budd defnyddwyr.



Bob blwyddyn, gwahoddir dosbarthwyr trydan a nwy i gyflwyno cynigion i Ofgem sy'n manylu ar y mentrau a oedd, yn eu barn hwy, o fudd i gwsmeriaid yn eu dewis categorïau. Yn y cynllun Trydan, sefydlwyd y categorïau i annog arfer gorau mewn meysydd megis cyfathrebu ehangach, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn y cynllun Nwy, rhoddwyd pwyslais ar leihau effaith amgylcheddol y cwmnïau dosbarthu nwy, mentrau sy'n hwyluso ymestyn y rhwydwaith ar gyfer pobl sy'n wynebu tlodi tanwydd a hyrwyddo diogelwch nwy drwy godi ymwybyddiaeth o beryglon Carbon Monocsid (CO). At ei gilydd mae'r cynlluniau'n darparu hyd at £25 miliwn o gyllid dros gyfnod o bum mlynedd.

Llwyddodd y ddau gynllun i amlygu arferion gorau yn y categorïau perthnasol. O dan y cynllun Nwy, £3,100,000 oedd y cyfanswm a roddwyd eleni, allan o £4 miliwn posibl. Roedd rhai o'r mentrau a wobrwyyd yn cynnwys: dull creadigol y Grid Cenedlaethol o reoli gwastraff, er enghraifft y fenter ailgylchu mesuryddion; strategaeth gyffredinol rhwydwaith Scotia Gas i hwyluso ymestyn y rhwydwaith ar gyfer pobl sy'n wynebu tlodi tanwydd, er enghraifft y fenter 'Park homes' lle bu ymgysylltu uniongyrchol â chwsmeriaid ac ymgais i ddiwallu eu hanghenion penodol. Cafodd y Grid Cenedlaethol gydnabyddiaeth hefyd am ei ddull cyffredinol o ymdrin â diogelwch CO a ategir gan strategaeth

glir a chydlynol. Gwnaeth y fenter bathodyn Cenawon Sgowtiaid argraff dda ar y panel, a oedd o'r farn bod hon yn ffordd effeithiol o ledaenu'r neges am ddiogelwch CO i deuluoedd.

O dan y cynllun trydan, rhoddwyd £700,000 eleni, allan o £1 filiwn bosibl. Yn y categori cyfathrebu ehangach, cafodd Western Power Distribution ei gydnabod am ei ystod eang o fentrau sy'n dangos meddylfryd arloesol a defnydd effeithiol o gyfleoedd adborth. Cafodd cynllun cronfa gymunedol Western Power ei ystyried yn arfer da ar gyfer y diwydiant yn y categori cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae'r cynllun yn rhoi grantiau i grwpiau cymunedol ac elusennau sy'n berchen ar eu hadeiladau eu hunain i'w helpu i leihau eu costau ynni. Enillodd Central Networks wobwr flaenllaw hefyd am ei raglen fraenaru ar y rhynggrwyd. Mae'r rhaglen hon yn galluogi datblygwyr ynni a ddosberthir i nodi meysydd datblygu posibl drwy alluogi cwsmeriaid i archwilio'r capasiti sydd ar gael ym mhob un o'i 94,000 o is-orsafydd.

2012 fydd y flwyddyn olaf y bydd y ddau gynllun yn rhedeg ar eu ffurf bresennol. Caiff y cynllun trydan ei adolygu fel y gellir gweithredu set ehangach o gymhellion ar gyfer cwsmeriaid a bydd y cynllun nwy yn rhan o RIIO-GD1.<sup>10</sup>

<sup>10</sup> RIIO-GD1 fydd yr adolygiad cyntaf o reoli prisiau dosbarthu nwy i adlewyrchu'r fframwaith rheoleiddio newydd yn sgil ein hadolygiad [RPI-X@20](https://www.ofgem.gov.uk/rpi-x). Mae'r model RIIO (Refeniw = Cymhellion + Arloesedd + Allbynnau) yn adeiladu ar lwyddiant y gyfundrefn RPI-X flaenorol, ond mae'n fwy addas ar gyfer yr heriau o ran buddsoddi ac arloesi drwy osod mwy o bwyslais ar gymhellion i lywio'r arloesedd sydd ei angen i gyflawni rhwydwaith ynni cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian i gwsmeriaid presennol a chwsmeriaid newydd.